

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Adran Cyfathrebu Corfforaethol
# Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol

Pecyn Gwybodaeth Recriwtio



Pan fydd pobl yn meddwl am ein gwasanaeth tân ac achub, maent yn aml yn dychmygu diffoddwyr tân yn ymateb i argyfyngau. Er bod hyn yn rhan hanfodol o'n gwaith, mae'r arweinyddiaeth a'r strategaeth sy'n sail i'n gweithrediadau yr un mor hanfodol. Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dibynnu ar dîm ymroddedig o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio y tu ôl i'r llenni i lunio ein proffil cyhoeddus, i gryfhau cysylltiadau mewnol ac adeiladu perthynas sy'n llawn ymddiriedaeth gyda'n cymunedau a'n rhanddeiliaid.

Mae cyfathrebu wrth wraidd hyn - yr edau euraidd sy'n cysylltu ac yn atgyfnerthu pob agwedd ar ein sefydliad. Nid yw cyfathrebu effeithiol yn ymwneud â rhannu gwybodaeth yn unig; mae'n ymwneud ag arweinyddiaeth, dylanwad a sicrhau bod ein negeseuon yn ennyn hyder, eglurder ac ymddiriedaeth. Fel gwasanaeth brys proffesiynol, mae cynnal ein henw da a chysylltu'n ystyrlon â'r cyhoedd, ein staff a'n rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol i'n llwyddiant.

Mae'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol yn chwarae rhan strategol wrth wreiddio cyfathrebu fel galluogwr sylfaenol er mwyn darparu gwasanaethau. Mae arwain y swyddogaeth hon yn gofyn am weledigaeth, arloesedd a'r gallu i ragweld ac ymateb i heriau sy'n dod i'r fei. Fel rhan o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, mae'r rôl hon yn rhoi cyngor arbenigol i uwch arweinwyr, gan lywio strategaeth gyfathrebu'r Gwasanaeth i gyd-fynd â'n nodau cyffredinol a'n huchelgeisiau tymor hir.

O gryfhau ein diwylliant mewnol i wella ein henw da y tu allan i'r Gwasanaeth, mae'r rôl arweinyddiaeth hon yn holl bwysig i sicrhau bod y cyfathrebu nid yn unig yn adweithiol ond yn flaengar ac yn ddylanwadol. Trwy gyfrwng ymgysylltu deinamig o ansawdd uchel ar draws sawl platfform, mae'r tîm yn meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd, yn hybu ymwybyddiaeth ac yn atgyfnerthu ein sefyllfa fel gwasanaeth brys hynod broffesiynol ac atebol.

Mae ein gwerthoedd craidd - ymdrechu am ragoriaeth, gwasanaethu ein cymunedau a thrin pobl â pharch - wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn chwilio am arweinydd sy'n ymgorffori'r gwerthoedd hyn ac sydd â'r arbenigedd strategol i wreiddio cyfathrebu yng nghalon llwyddiant ein sefydliad. Os ydych yn gyfathrebwr llawn gweledigaeth gyda'r gallu i ysbrydoli, ymgysylltu a sbarduno newid ystyrlon, mae arnom eisiau i chi fod yn rhan o'n tîm.




# Pwy ydym ni

Pwrpas Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yw Atal, Amddiffyn ac Ymateb. I wneud hyn, rydym yn cyflogi mwy na 850 o staff mewn rolau gweithredol a chymorth.

Rydym yn helpu i ddiogelu gorchudd ardalo tua 2,400 milltir sgwâr a phoblogaeth breswyl o dros 700,000 o bobl, yn ogystal â channoedd o filoedd o  ymwelwyr sy'n teithio i mewn ac allan o Ogledd Cymru bob blwyddyn.

Ar gyfartaledd, rydym yn mynd i tua 2,000 o danau a 1,000 o argyfyngau nad ydynt yn rhai tân fel gwrthdrawiadau traffig ffyrdd a llifogydd bob blwyddyn. Rydym hefyd yn  mynychu tua 2,000  o alwadau brys sy'n troi allan i fod yn alwadau ffug.

Rydym yn cynnal gwaith atal tân helaethdrwy ymweld â phobl yn eu cartrefi, mynychu digwyddiadau, ymgysylltu â phlant a phobl ifanc, a gweithio gyda phartneriaid i addysgu a hysbysu cymunedau lleol. Rydym hefyd yn cynnal presenoldeb gweithredol yn y cyfryngau, gan gynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol.

Mae rhan arall o'n gwaith mewn rôl gorfodi diogelwch tân, felly rydym yn ymweld â busnesau a gweithleoedd i sicrhau bod y bobl sy'n gyfrifol am y safleoedd hynny'n cadw eu trefniadau diogelwch tân yn safonol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn lle proffesiynol a chyfeillgar i weithio. Rydym yn cynnig diwylliant cefnogol lle rydym yn gweithio'n galed i gynnal ein gwerthoedd craidd.

Gallwch ddarllen mwy am ein Gwerthoedd Craidd ar y dudalen nesaf. I gael rhagor o wybodaeth am y Gwasanaeth ewch i wefan Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru.



# Ein Gwerthoedd Craidd

GWNEUD GOGLEDD CYMRU'N LLE MWY DIOGEL I FYW, GWEITHIO AC YMWELD AG O

## Gwasanaethu'r gymuned

**Mae amddiffyn ein cymunedau'n ganolog i bopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy weithio gyda'n partneriaid a grwpiau eraill i leihau risg a bod yn atebol i'r bobl yr ydym ni'n eu gwasanaethu.

## Ymdrechu dros ragoriaeth

**Rydym ni bob amser yn ymdrechu i wneud ein gorau glas ym mhopeth yr ydym ni'n ei wneud -**

trwy fod yn arloesol a phen agored, croesawu adborth gan eraill, dysgu o brofiad, cydnabod cryfderau yn ogystal â chyfleoedd ar gyfer datblygu.

## Pobl

**Rydym ni'n gwerthfawrogi'n gilydd -**

trwy arfer tegwch a pharch, cefnogi datblygiad personol, cydnabod teilyngdod, ymrwymo i onestrwydd, cywirdeb a chyd ymddiriedaeth.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Rydym ni'n galluogi pobl i gyrraedd eu llawn botensial waeth beth fo'u cefndir neu amgylchiadau -**

trwy werthfawrogi gwahaniaethau, hyrwyddo cyfle cyfartal, herio rhagfarn a chamwahaniaethu.

# Gogledd Cymru: Lle i fyw, gweithio ac ymweld ag ef

O fewn rhanbarth Gogledd Cymru mae Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn. Mae gan bob sir rywbeth arbennig i'w gynnig, p'un a ydych chi'n chwilio am gyffro ac antur neu ddiwylliant a threftadaeth. Mae byw a gweithio yng Ngogledd Cymru'n cynnig amgylchedd ardderchog i unrhyw un sy'n ceisio gwell ansawdd bywyd.

Mae gan yr ardal, sy'n cael ei hystyried yn un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y DU, lawer i'w gynnig. Gan ei bod yn ardal o dirwedd eithriadol sy'n amrywio o draethau tywod hir a phentiroedd trawiadol i ddyffrynnoedd cysgodol, rhosydd agored a mynyddoedd garw, mae yma rywbeth i bawb. Mae twristiaeth yn cyfrannu'n helaeth at yr economi leol, gydag amrywiaeth eang o gyfleusterau ar draws y rhanbarth i ddenu gwahanol ymwelwyr i'r ardal bob blwyddyn. Mae'r rhain yn cynnwys llinellau sip cyffrous, parciau antur a chwaraeon dŵr, a theithiau cerdded mwy hamddenol i ddarganfod trefi a chefn gwlad yr ardal neu i ymweld â mannau hanesyddol a diwylliannol, gan gynnwys cestyll.

Mae Gogledd Cymru yn agos at natur ac yn cynnig digon o le awyr agored, ond mae hefyd o fewn cyrraedd i fwrlwm a phrysurdeb trefi a dinasoedd mawr Gogledd-orllewin Lloegr, fel Caer, Lerpwl a Manceinion. Mae'r cysylltiadau rheilffordd hefyd yn cysylltu arfordir Gogledd Cymru â dinasoedd mawr ar draws y DU, gyda threnau uniongyrchol yn mynd i Lundain (o fewn 3 – 4 awr), Birmingham a Manceinion ymysg eraill.

Mae bwyd a diod yn rhan bwysig o ddiwylliant Cymru gyda gwyliau bwyd a marchnadoedd yn digwydd ledled y rhanbarth i arddangos y bwydydd a'r diodydd gorau sydd gan Gymru i'w cynnig. Gan ddefnyddio cynnyrch lleol a thymhorol, o bysgod newydd eu dal i gig oen tyner lleol, caws, gwin, cwrw a jin, mae yma ddigonedd o leoedd bwyta at ddant pawb. Mae'r ardal yn cynnig bwytai bwyd cain, tafarndai gastro a bistros yn ogystal â thafarndai cefn gwlad, ystafelloedd te a chaffis.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae gan Gymru boblogaeth o ychydig dros 3.1 miliwn, gyda thua 18% o'r boblogaeth yn siaradwyr Cymraeg. Mae'r Cymry'n angerddol am yr iaith, chwaraeon a diwylliant ac mae cystadlaethau cerddoriaeth, barddoniaeth a chelfyddyd yn digwydd yn flynyddol – sef yr Eisteddfodau. Gwyliau diwylliannol ydyn nhw sy'n cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn darparu llwyfan cenedlaethol ar gyfer cerddoriaeth, dawns, llenyddiaeth, celfyddydau gweledol a pherfformio. Er bod y Gymraeg yn rhan bwysig o'r Eisteddfod, mae'r digwyddiadau'n agored i bawb ac felly nid oes rhaid i chi fod yn siaradwr Cymraeg i'w mynychu a'i mwynhau. Bydd pobl o bob oed a gallu, a dysgwyr Cymraeg, yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn Eisteddfodau, gydag Eisteddfod Ryngwladol Llangollen yn cael ei chynnal bob blwyddyn ar ddechrau Awst. Mae hon yn dod â phobl o bob cwr o'r byd at ei gilydd i ddathlu'r gwahanol ddiwylliannau, cerddoriaeth a chelfyddydau mewn un lle.



# Y Rôl

Mae cyfle arweinyddiaeth strategol wedi codi o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ar gyfer Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol parhaol. Bydd y rôl hanfodol hon yn adrodd i'r Bwrdd Gweithredol ac yn aelod gweithgar ac annatod o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Lleolir y rôl yn y Pencadlys yn Llanelwy, gyda pheth hyblygrwydd ar gyfer gweithio o bell.


Fel Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol, byddwch yn rhoi cyngor strategol, moesegol a phragmatig, her a chefnogaeth i'r Prif Swyddog Tân, y Bwrdd Gweithredol a'r Awdurdod Tân. Byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod cyfathrebu ac ymgysylltu wrth wraidd cyflwyno gwasanaethau effeithiol a llwyddiant sefydliadol.

Gan arwain swyddogaeth Cyfathrebu Corfforaethol deinamig, byddwch yn goruchwylio cysylltiadau â'r cyfryngau, cyfathrebu mewnol, cysylltu â'r gymuned, materion allanol a bod yn allweddol wrth gynnal ymrwymiad y Gwasanaeth i ddwyieithrwydd, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal mewn cyfathrebu cyhoeddus a gweithrediadau mewnol. Byddwch yn bwrw ymlaen â Strategaeth Gyfathrebu gynhwysfawr sy'n cael ei llywio gan ddata, gan feithrin ymddiriedaeth, hygrededd ac ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn weithiwr cyfathrebu proffesiynol profiadol iawn, gyda'r gallu i arwain ar draws pob disgyblaeth, gan gynnwys cyfathrebu mewn argyfwng, ymgysylltu digidol, rheoli brand a newid diwylliant sefydliadol. Byddwch yn dangos arweinyddiaeth drawsnewidiol, gan ymgorffori dulliau cyfathrebu arloesol a sicrhau bod gan y Gwasanaeth lais cryf, dylanwadol a chyson ar draws pob platfform.

Fel rhan o'r rôl hon, byddwch yn arwain ac yn cymryd rhan mewn rota ar alwad 24/7 ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu cefnogaeth yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer digwyddiadau mawr y tu allan i oriau arferol.

Rydym yn chwilio am arweinydd â gweledigaeth sy'n cyd-fynd â Chod Moeseg Craidd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, gan ddod ag ymrwymiad cryf i gynhwysiant, cydweithredu a gwasanaeth cyhoeddus.



# Yr hyn y gallwn ei gynnig i chi

## Tâl

Termau ac amodau Llyfr Glas

Cyflog: Cychwyn ar £57,692 gan godi i £61,877  (lwfans ar-alwad o 8.5%)

## Oriau gwaith

Byddwch yn gweithio 37 awr yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Gwener ond rydym yn cynnig cryn dipyn o hyblygrwydd a cheisiwn gefnogi staff i gydbwyso eu bywyd gwaith a chartref.

Fel rhan o'r rôl hon, byddwch yn arwain ac yn cymryd rhan mewn rota ar alwad 24/7 ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu cefnogaeth yn y wasg a'r cyfryngau cymdeithasol ar gyfer digwyddiadau mawr y tu allan i oriau arferol.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyflwyno polisi gweithio hyblyg i hyrwyddo gweithio rhithiol ac yn y cartref lle bo'n ymarferol.

## Manteision cyflogaeth

- Hawl am Wyliau Blynyddol hael, yn cychwyn ar 35 diwrnod y flwyddyn, yn ogystal a gwyliau cenedlaethol
- Darperir gwisg Gwasnaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru
- Mynediad i gyfraniad gweithwyr o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Byddwn yn cynnig hyfforddiant, cefnogaeth ac arweiniad i ddatblygu eich potensial
- Cefnogaeth iechyd, ffitrwydd a lles, yn cynnwys iechyd galwedigaethol, cefnogaeth cydweithiwr, hyrwyddwyr iechyd meddwl, therapyddion corfforol a mynediad i ampfeydd y Gwasanaeth
- Ystod o fuddion eraill megis cynllun beicio i'r gwaith a mynediad i bris gostyngol mewn cannoedd o siopau, hamdden a darparwyr gwasanaethau.



# Disgrifiad Swydd

| | |
|---|---|
| **Teitl Swydd** | Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| **Adran** | Cyfathrebu Corfforaethol |
| **Yn Atebol i** | Bwrdd Gweithredol |
| **Lleoliad** | Pencadlys y Gwasanaeth, Llanelwy |

## Pwrpas y Swydd

Prif ddiben y rôl hon yw darparu arweinyddiaeth strategol a goruchwylio strategaethau cyfathrebu'r Gwasanaeth, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â nodau cyffredinol a hunaniaeth gorfforaethol y sefydliad. Fel aelod allweddol o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, mae deiliad y swydd yn chwarae rhan ganolog wrth lunio proffil cyhoeddus y Gwasanaeth, ymgysylltu mewnol a'r berthynas â rhanddeiliaid.

Mae'r rôl hon yn gofyn am arweinydd â gweledigaeth a all ysgogi swyddogaeth Cyfathrebu Corfforaethol deinamig a rhagweithiol, gan ymgorffori cyfathrebu fel galluogwr sylfaenol o ran darparu gwasanaethau a llwyddiant sefydliadol. Mae deiliad y swydd yn darparu cyngor strategol arbenigol i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth, gan sicrhau bod cyfathrebiadau nid yn unig yn ymatebol ac yn effeithiol ond hefyd yn flaengar ac yn cyd-fynd ag uchelgeisiau hirdymor y Gwasanaeth.

Mae'r cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys dylunio, gweithredu a chynnal strategaeth gyfathrebu gynhwysfawr sy'n gwella enw da'r Gwasanaeth, yn cryfhau cydweithredu mewnol, ac yn dyfnhau ymddiriedaeth rhanddeiliaid. Trwy ddulliau cyfathrebu arloesol, mawr eu dylanwad, mae deiliad y swydd yn sicrhau bod y Gwasanaeth yn cynnal llais cryf, credadwy a dylanwadol ar draws pob sianel.

## Y Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

1. **Arweinyddiaeth Strategol a Llywodraethu**

   Cyfrannu at ddatblygu amcanion corfforaethol a chynlluniau'r Gwasanaeth trwy weithio fel aelod gweithgar a hanfodol o Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth.

   Darparu cyngor, her a chymorth rhagweithiol, strategol, moesegol a phragmatig i'r Prif Swyddog Tân, y Bwrdd Gweithredol a'r Awdurdod Tân.

2. **Rheoli Argyfwng ac Ymateb i Ddigwyddiadau**

   Pennu'r trefniadau argaeledd ar alwad ar gyfer digwyddiadau mawr a digwyddiadau y tu allan i oriau arferol y mae'n rhaid ymateb iddynt, gan gynnwys gweithio gyda gweithredwyr yr Ystafell Reoli i sicrhau defnydd effeithiol o gysylltiadau cyfryngau a sianeli cyfryngau cymdeithasol.

   Rheoli a chymryd rhan mewn rota 24/7 ar alwad ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru i ddarparu cefnogaeth swyddog y wasg / y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer digwyddiadau mawr y tu allan i oriau swyddfa arferol, gan gynnwys penwythnosau a gwyliau banc.

   Arwain a chydlynu rheolaeth y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol yn ystod digwyddiadau neu argyfyngau mawr, gan sicrhau cysondeb â chynlluniau parhad busnes a'r Protocol Gweithredu amlasiantaethol ar gyfer ymwneud â'r Cyfryngau.

   Arwain ar gysylltiadau cyfryngau – gan gynnwys cyflwyno a rheoli cynadleddau i'r wasg a chyfweliadau yn y cyfryngau, darparu arweiniad a rheoli hyfforddiant yn y cyfryngau i lefarwyr

gan gynnwys uwch arweinwyr, gweithredu fel llefarydd ar ran y Gwasanaeth fel y cyfarwyddir gan y Tîm Arweinyddiaeth Weithredol.

**3. Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

Arwain y gwaith o ddatblygu Strategaeth Gyfathrebu gynhwysfawr sy'n cael ei gyrru gan ddata, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd â phwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd y Gwasanaeth.

Gyrru strategaethau cyfathrebu mewnol a newid diwylliannol, gan sicrhau bod ymgysylltiad a boddhad staff yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

Datblygu a goruchwylio cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu mesuradwy, wedi'i dargedu, gan feithrin perthynas ddylanwadol a buddiol i'r ddwy ochr â rhanddeiliaid.

Goruchwylio arolwg staff y Teulu Tân, gan sicrhau ei fod yn cael ei gynnal yn rheolaidd fel y cytunwyd gan y Bwrdd Gweithredol, bod y canlyniadau'n cael eu dadansoddi, a bod cynlluniau gweithredu'n cael eu datblygu i fynd i'r afael â themâu allweddol.

**4. Arloesi ac Ymgysylltu Digidol**

Gwella'r systemau a'r prosesau cyfathrebu'n barhaus, gan sicrhau bod y platfformau'n parhau i fod yn arloesol ac yn addas ar gyfer y dyfodol.

Ehangu ôl troed digidol y Gwasanaeth, gan ddefnyddio offer blaengar ac ymgyrchoedd ymgysylltu creadigol i wella cyrhaeddiad ac effaith.

**5. Rheoli Brand**

Gweithredu fel gwarcheidwad brand, gan sicrhau cysondeb o ran tôn llais, hunaniaeth weledol a negeseuon allweddol.

**6. Gallu a Chydymffurfiaeth Sefydliadol**

Sicrhau bod gan y tîm Cyfathrebu Corfforaethol y gallu a'r sgiliau i gyflawni amcanion strategol drwy nodi bylchau sgiliau a chefnogi datblygiad proffesiynol.

Darparu arweinyddiaeth strategol a rheolaeth o ddydd i ddydd ar gyfathrebu mewnol, ymgysylltu â'r gymuned, materion allanol, marchnata, denu a recriwtio a chyllidebau cysylltiedig.

Sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau arfer da, diweddaru polisïau a gweithdrefnau cyfathrebu a chadw atynt.

Cynnal ymrwymiad Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ddwyieithrwydd, gan sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal mewn cyfathrebu cyhoeddus a gweithrediadau mewnol.

Sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg, gan gynnwys adroddiadau statudol a monitro perfformiad.

**7. Cydnerthedd Gweithredol a Pharhad Busnes**

Arwain Rheolaeth Parhad Busnes o fewn yr adran, gan sicrhau bod gweithgareddau hanfodol yn parhau yn ystod digwyddiadau sy'n tarfu, a bod gweithrediadau arferol yn cael eu hadfer yn gyflym.

Chwilio am welliannau effeithlonrwydd yn barhaus, gan optimeiddio systemau a phrosesau i wella effeithiolrwydd cyffredinol.

8. **Arweinyddiaeth a Datblygu Tîm**

Darparu arweinyddiaeth, rheolaeth a hyfforddiant i'r Adran Cyfathrebu Corfforaethol gan feithrin tîm llawn cymhelliant sy'n perfformio'n dda. Efallai y bydd hyn yn gofyn am ddarparu gofynion hyfforddiant cyfathrebu ehangach ar draws y Gwasanaeth, yn ôl yr angen.

9. **Dyletswyddau Eraill**

Ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol yn ôl yr angen i ddiwallu anghenion esblygol y Gwasanaeth.

## Cyfrifoldeb Gorchwylio

Dirprwy Bennaeth Cyfathrebu Corfforaethol,

Uwch Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol,

Swyddog Cyfathrebu Corfforaethol,

Swyddog Iaith Gymraeg,

Dylunydd Graffeg a Chynorthwyydd Ymgysylltu Digidol.

## Cyfrifoldeb Ariannol

Yn rheoli cyllideb adrannol o hyd at £450k (gan gynnwys costau cyflog adrannol)

## Cysylltiadau y Tu Allan i'w His-adran eu Hunain

Prif Swyddogion

Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth

Aelodau'r Awdurdod Tân

Staff eraill y GTA

Llywodraeth Cymru

Gwasanaethau Brys Eraill

Awdurdodau Lleol

Ymgynghorwyr Llywodraeth Leol

Comisiynydd y Gymraeg

Asiantaethau allanol amrywiol

## Gofynion Iaith

Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg hyd at Lefel 4 - mae angen:

- Bod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg, gydag sgiliau Cymraeg Lefel 4 o leiaf, gyda'r un safon ar lafar, darllen ac ysgrifennu;
- cynnal sgwrs sy'n gysylltiedig â gwaith a dilyn cyfarfod a allai gynnwys gwybodaeth dechnegol

## Camau Gwirio Cyn Cyflogi / Gofynion Penodol

Fetio Personél nad yw'n aelod o'r Heddlu (NPPV)

## Arall

Mae'r gallu i weithio'n ystwyth, sy'n cynnwys gweithio hyblyg ac o bell, boed hynny gartref neu o leoliad amgen sy'n perthyn i'r Gwasanaeth, ar gael ar gyfer y rôl hon, gyda chytundeb y rheolwr llinell.

Gweithio'n bennaf dan do mewn amgylchedd swyddfa.

# Gofynion Person

| | |
|---|---|
| **Cymwysterau/ Gwybodaeth/ Profiad** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Gradd uwch berthnasol, neu gymhwyster proffesiynol, neu brofiad a gafwyd mewn rolau arwain tebyg |
| | Tystiolaeth o gyfrannu at drawsnewid, newid diwylliannol, neu ddatblygiad sefydliadol mewn rôl gyfathrebu |
| | Profiad o weithio'n effeithiol gyda'r wasg a chyfryngau allanol eraill, gan gynnwys fel llefarydd |
| | Gallu bodloni meini prawf rheolwr strategol sy'n cyd-fynd â Chod Moeseg Craidd Cenedlaethol y Gwasanaeth Tân |
| | Profiad mewn rôl rheoli cyfathrebu (cysylltiadau cyhoeddus, marchnata, cyfathrebu mewnol) mewn sefydliad sy’n ymwneud â'r cyhoedd |
| | Profiad o arwain, datblygu ac ysgogi tîm o staff. |
| | Profiad blaenorol o gynhyrchu dogfennau yn unol â Safonau'r Gymraeg, fel y’u cymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. |
| | Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg (Lefel 4) |
| | **Dewisol**<br>Nodweddion ychwanegol y gellir eu defnyddio i ddewis rhwng ymgeiswyr sy’n bodloni’r holl feini prawf hanfodol |
| | Aelodaeth o gorff proffesiynol perthnasol, gyda statws Siartredig yn ddelfrydol, e.e. CIPR, CIM, IoIC |
| | Cymhwyster arweinyddiaeth, hyfforddi, neu fentora, e.e. ILM |
| | Profiad fel uwch reolwr cyfathrebu mewn sefydliadau sy'n ymwneud â'r cyhoedd, yn ddelfrydol wedi'i ennill mewn amrywiaeth o sefydliadau |
| | Tystiolaeth o sgiliau sy'n berthnasol i'n gwaith: newid sefydliadol, ymgyrchoedd newid ymddygiad, cyfathrebu mewnol, ymgysylltu â staff, ymgyrchoedd recriwtio, cyfathrebu gwleidyddol / materion cyhoeddus |
| | Tystiolaeth o reoli cyllideb adrannol |
| | Gwybodaeth weithredol am Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. |
| | Gwybodaeth weithredol am Fesur yr Iaith (Cymru) 2011. |

| | |
|---|---|
| **Sgiliau** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Ymrwymiad i bwrpas, gweledigaeth a gwerthoedd GTAGC |
| | Ymrwymiad i weithio o fewn egwyddorion Partneriaeth Gymdeithasol fel y'u diffinnir gan Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 |
| | Sgiliau cyfathrebu rhagorol – yn rhyngbersonol ac yn ysgrifenedig |
| | Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus |
| | Y gallu i weithio'n hyblyg a bodloni anghenion cyfathrebu gweithredol Gwasanaeth Tân ac Achub deinamig |
| | Sgiliau rhyngbersonol da gyda phrofiad o weithio'n adeiladol ar draws timau amlddisgyblaethol |
| | Rhaid gallu gweithio i derfynau amser llym ac o dan bwysau |
| | Lefel uchel o uniondeb a disgresiwn proffesiynol |
| | Yn gallu blaenoriaethu galwadau sy'n cystadlu a dirprwyo gwaith |
| | Y gallu i ddatblygu atebion ymarferol i broblemau gan gydbwyso sawl mater a blaenoriaeth yn briodol |

| | |
|---|---|
| **Gofynion Perthnasol Eraill** | **Hanfodol**<br>Y nodweddion na ellid penodi deiliad y swydd hebddynt |
| | Trwydded yrru gyfredol sy'n ddilys yn y DU a'r gallu a'r parodrwydd i deithio o gwmpas ardal y Gwasanaeth a thu hwnt yn ôl yr angen. |

* Bydd tystiolaeth o gymwysterau yn cael cais a'u gwirio cyn cadarnhau apwyntiad

Sylwer: Er mwyn cael eich rhoi ar restr fer y swydd hon, bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol.

# Sgiliau yn yr Iaith Gymraeg

Yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, rydym yn credu y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni wedi cymryd y mater o iaith o ddifrif dros flynyddoedd lawer. Drwy gydnabod ein dyletswyddau moesol a chyfreithiol i ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol yr ardal ac i fodloni disgwyliadau'r gymuned leol, rydym yn cydnabod y manteision cadarnhaol i'r gwasanaeth hefyd o gynnal ein busnes cyhoeddus yn y ddwy iaith. Mae achub bywydau a lleihau risg wrth wraidd ein cenhadaeth – ac mae iaith yn hanfodol i'w lwyddiant.

Mae gofyniad Cymraeg y swydd hon yn lefel 4 ac mae'r sgiliau gofynnol wedi'u nodi isod.

| Maes Sgil | Gofynion Safonnau'r Iaith Gymraeg |
|---|---|
| **Gwrando / siarad** | ▪ Gynnal sgwrs anffurfiol yn ymwneud â gwaith neu roi cyflwyniad gyda rhugldeb ac ystod o ddywediadau ond y gall fod angen troi at iaith arall i ateb cwestiynau annisgwyl neu er mwyn esbonio materion cymhleth neu wybodaeth dechnegol.<br>▪ Cyfrannu'n effeithio i gyfarfodydd neu seminarau o fewn y maes gwaith.<br>▪ Dadlau o blaid/yn erbyn achos. |
| **Darllen** | ▪ Ddarllen a deall gwybodaeth yn eithaf sydyn, cyn belled nad oes geiriau anarferol yn cael eu defnyddio ac nad yw'n cynnwys gwybodaeth technegol neu gymhleth. |
| **Ysgrifennu** | ▪ Baratoi wahanol fathau o lythyrau ffurfiol o wahanol fathau, tebyg i ymholiadau, cwynion, ceisiadau.<br>▪ Gwneud nodiadau eithaf cywir mewn cyfarfodydd neu pan fo rhywun yn arddweud.<br>▪ Ysgrifennu adroddiad/dogfen yn ymwneud â'ch maes gwaith. |



# Sut i ymgeisio

I wneud cais am y swydd hon, rhaid i bob ymgeisydd lenwi ein ffurflen gais. Mae'r ffurflen gais i'w chael ar dudalen Swyddi Gwag presennol ein gwefan. Dylid cyflwyno ffurflenni wedi'u llenwi drwy e-bost at recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru

Gofynnir i chi beidio danfon eich CV gyda'r Ffurflen Gais gan mai dim ond y wybodaeth a roddir ar y Ffurflen Gais fydd yn cael ei ddefnyddio wrth greu rhestr fer.

Pan fyddwch yn cwblhau eich cais, gofynnir i chi ymgyfarwyddo gyda'r Disgrifiad Swydd a'r Manylion Person yn y pecyn gwybodaeth yma fel eich bod yn deall y gofynion ynglŷn a chymwysterau, sgiliau a phriodoleddau hanfodol ar gyfer y rôl. Bydd angen i chi ddangos eich bod yn bodloni'r holl feini prawf hanfodol sydd ym manyleb y person er mwyn cyrraedd y rhestr fer yn y cam nesaf. Mae eich cyfle o fod ar y rhestr fer am gyfweliad yn seiliedig ar y wybodaeth a roddwch ar eich ffurflen gais.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech roi gwybod i ni mewn da bryd os hoffech chi i ni wneud unrhyw addasiadau rhesymol i chi.

Sicrhewch eich bod yn anfon eich cais cyn y dyddiad cau gan nad yw ceisiadau hwyr yn cael eu derbyn.

Os ydych yn cael unrhyw broblem cael gafael ar y ffurflen gais neu ei chwblhau, cysylltwch â'r tîm Recriwtio: recruitment@tangogleddcymru.llyw.cymru neu ffoniwch 01745 535 281.

## Gwybodaeth bellach

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn a'r rôl hon neu os hoffech sgwrs anffurfiol cyn ymgeisio, mae croeso i chi gysylltu gyda Tracey Williams ar tracey.williams@tangogleddcymru.llyw.cymru neu 01745 535 285

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cau** | **12:00 ar 07/03/25** |

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac mae ceisiadau yn cael eu hannog gan unigolion waeth beth fo'u sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhywedd, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gydradd i'r naill iaith ac yn ymateb yn eich iaith ddewisol heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Gwasanaeth Tân ac Achub**
**Fire and Rescue Service**